



# YMUNWCH Â NI

**YMLADDWR TÂN ACHUBOL**  
**PECYN GWYBODAETH I**  
**YMGEISWYR**



Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru  
South Wales  
Fire and Rescue Service

---

**RAISING AWARENESS - REDUCING RISK**

---

# CYNNWYS

PWY YDYM NI.....	3
PFROFFIL SWYDD.....	4
DISGRIFIAD SWYDD.....	5
MANYLEB PERSON.....	7
Y BROSES YMGEISIO.....	8
SUT I YMGWEISIO.....	9
BUDDION.....	10

# PWY YDYM NI

## “I WNEUD DE CYMRU'N DDIOGELACH, TRWY LEIHOU RISG”

Ni yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'n gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd sy'n gyrru ac yn cymell ein pobl i wneud de Cymru'n fwy diogel, drwy leihau risg. Ein nod yw amddiffyn a gofalu am y 10 Awdurdod Unedol sy'n creu ein hardal amrywiaethol trwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr gwasanaethau rheng flaen eraill

Rydym yn cyflogi tua 1700 o bobl ar draws De Cymru mewn cymysgedd o rolau Gweithredol a Chorfforaethol, gyda'r rhan fwyaf o'n staff corfforaethol wedi'u lleoli yn ein pencadlys yn Llantrisant.

Cefnogir y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir gan Staff Gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan nifer o dimau, sy'n cyflawni rolau gweinyddol a thechnegol. Mae Staff Gweithredol a Chorfforaethol yn cydweithio'n agos i ddarparu lefel uchel o wasanaeth i gymunedau De Cymru.

Mae Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant a Thegwch yn flaenoriaeth i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac mae gennym ymrwymiad i ymdrechu i adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

# PROFFIL SWYDD

Gwnewch gais erbyn 25 Ebrill 2025

Rhestr Fer: 28 Ebrill 2025

Diwrnod Asesu Corfforol ac Ymarferol: 16eg Mai 2025

**Sylwch, rhaid i chi fod ar gael ar gyfer y Diwrnod Asesu Corfforol ac Ymarferol uchod a rhaid i chi fod yn fodlon ymrwymo i hyfforddiant gorfodol arall fel y nodir yn y pecyn gwybodaeth hwn i ymgeiswyr.**

Gweledigaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw gwneud De Cymru yn fwy diogel drwy leihau risg. Ein nod yw amddiffyn a gwasanaethu ar draws y 10 Awdurdod Unedol sy'n rhan o'n hardal amrywiol, gan weithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr mewn gwasanaethau rheng flaen eraill. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cwmpasu meysydd yr Awdurdod Unedol, sef:

- ***Blaenau Gwent***
- ***Pen-y-bont ar Ogwr***
- ***Caerffili***
- ***Caerdydd***
- ***Merthyr Tudful***
- ***Sir Fynwy***
- ***Casnewydd***
- ***Rhondda Cynon Taf***
- ***Torfaen***
- ***Bro Morgannwg***

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ddyletswydd statudol i ddarparu darpariaeth Tân ac Achub brys i gymunedau De Cymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cyfnodau lle y gallent fod yn ostyngiad sylweddol mewn personél Llawn Amser a'r System Dyletswydd Rhan Amser oherwydd pandemig fflw, Gweithredu Diwydiannol neu achosion tebyg eraill. Er mwyn mynd i'r afael â'r angen hwn, mae'r gwasanaeth wedi datblygu cynllun Rheoli Parhad Busnes (BCM) sydd wedi arwain at greu Cronfa Wrth Gefn Atodol a fydd yn darparu'r gwytnwch mewn amser o angen.

Mae angen tynnu sylw at y ffaith bod y Gronfa Wrth Gefn Atodol wedi'i chreu er mwyn darparu gwytnwch mewn amgylchiadau eithriadol megis pandemig fflw, gweithredu diwydiannol neu achosion tebyg a fyddai'n lleihau gallu diffodd tân ac argyfwng y gwasanaeth.

Darperir hyfforddiant sgiliau craidd i'r Ymladdwyr Tân Wrth Gefn Atodol. Cefnogir yr hyfforddiant gan raglen o hyfforddiant ailymgyfarwyddo chwarterol sy'n gymesur â natur a graddau'r argyfyngau a'r digwyddiadau y gellid disgwyl i bersonél Wrth Gefn Atodol eu mynychu. Byddai lefel yr hyfforddiant a ddarperir yn cynnwys sgiliau diffodd tân craidd gan gynnwys hyfforddiant offer anadlu a thechnegau gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Byddai lefel yr hyfforddiant cychwynnol a pharhaus a ddarperir yn sicrhau eich bod yn aelod gwerthfawr ac effeithiol o'r Ymladdwyr Tân Wrth Gefn Atodol.

Mae natur y digwyddiadau y gallai'r Gronfa Wrth Gefn Atodol eu mynychu yn cynnwys; tanau mewn adeiladau domestig a masnachol, tanau ceir a cherbydau eraill, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau rheilffordd. Nid yw'r rhestr o ddigwyddiadau yn hollgynhwysfawr.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn awyddus i recriwtio rhagor o bersonél i ychwanegu at y Gronfa Ategol bresennol sydd wedi bodoli ers un mlynedd ar ddeg, bydd y rolau hyn yn cael eu recriwtio ar sail Contract Cyfnod Penodol 12 mis.

#### **Tâl:**

- £15.06 yr awr yn ystod cyfnod yr hyfforddiant cychwynnol
- £15.06 yr awr ar gyfer hyfforddiant ad hoc neu ddyletswyddau ychwanegol
- £289.54 ar gyfer presenoldeb yn y diwrnod hyfforddi ail-gyfarwyddo chwarterol (4 bob chwarter)
- £289.54 taliad cadw chwarterol yn amodol ar fynychu'r diwrnod hyfforddi ail-ymgyfarwyddo chwarterol.

Mae taliadau pellach yn berthnasol ar gyfer danfon gweithredol.

**Sylwch:** mae cyfradd y tâl a thaliadau Cadw yn amodol ar gynnydd blynyddol yn unol â chodiadau cyflog GTADC.

- **Contract:** Cytundeb Cyfnod Penodol 12 Mis
- **Cyflog:** Cyfraddau Awr a Thaliadau a nodir uchod
- **Oriau Gwaith:** 2 x 5 diwrnod o hyfforddiant cychwynnol (yn y flwyddyn gyntaf)  
4 x 1 Diwrnod Hyfforddiant Dysgu Parhaus
- **Cyfarwyddiaeth:** Rheoli Risg Gweithredol
- **Cyfeirnod Swydd:**
- **Lleoliad:** Wedi'i leoli yn Abercarn i gynnwys gwasanaeth GTADC

# SWYDD-DDISGRIFIAD

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth

**Yn atebol i:** Swyddog Cymorth Ategol / Rheolwr Grŵp (Gwydnwch a Chynllunio)

**Yn gyfrifol am:** **\*\*Os bydd amgylchiadau eithriadol\*\***

Bydd yr Auxiliary yn darparu Darpariaeth Tân ac Achub brys i gymunedau De Cymru.

**Tasgau Allweddol Ymladdwr Tân Cynorthwyol:**

- *Presenoldeb ymroddedig a pharhaus ym mhob Diwrnod Hyfforddiant Chwarterol*
- *Gweithio gydag Offer Ymladd Tân ac Achub Bywyd (Yn ystod hyfforddiant a danfon posibl)*
- *Gweithio fel rhan o dîm*
- *Cyfathrebu effeithiol*

**Yn ychwanegol at y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a amlinellir uchod, bydd gofyn i ddeiliad y swydd:**

1. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'u gradd a'u swydd.
2. Mynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl y gofyn.
3. Cydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot a gyflwynir o fewn yr adran neu ar draws y Gwasanaeth.
4. Cymhwyso egwyddorion Gweithdrefn Urddas yn y Gweithle Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth wrth gyflawni'u dyletswyddau.
5. Amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl rhag niwed, gan adrodd unrhyw bryderon diogelu wrth ddefnyddio Gweithdrefn Ddiogelu'r Gwasanaeth.
6. Ufuddhau i Ddeddfwriaeth a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch a chymryd gofal rhesymol mewn perthynas â'u hiechyd a diogelwch eich hunan ac eraill.

# Y FANYLEB PERSON

## HANFODOL

- ✓ Rhaid byw yn Rhanbarth Tân ac Achub De Cymru (ni fydd digolledu am deithio y tu allan i hon)
- ✓ Rhaid bod dros 18 oed
- ✓ Rhaid bod yn ffit yn gorfforol (i gwblhau'r Prawf Ffitrwydd a chyflawni nifer o ymarferion hyfforddi gofynnol)
- ✓ Rhaid gallu ymrwymo i'r dyddiadau canlynol:
  - Diwrnod Proses a Corfforol – 16eg Mai 2025 (Byddwch yn cael cynnig apwyntiad yn y bore neu yn y prynhawn)

Unwaith y cewch eich penodi **RHAID** i chi allu ymrwymo i:

- 1 Wythnos o hyfforddiant Sgiliau Craidd (Gorffennaf 2025)
- 1 Wythnos o hyfforddiant Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd (Rhagfyr 2025)
- Mae pedwar diwrnod hyfforddi ail-ymgyfarwyddo (yn seiliedig ar 1 diwrnod y chwarter) trwy gydol y flwyddyn a'r blynyddoedd i ddod.
- Mae dyletswyddau pellach yn dibynnu ar ofynion y Gwasanaeth.

## DYMUNOL

- ✓ Deiliad Trwydded HGV
- ✓ Addysg hyd at TGAU (neu gyfwerth) mewn Saesneg a Mathemateg.

**DS** Mae'r rôl hon yn golygu teithio'n aml rhwng safleoedd ledled De Cymru. Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynno



# Y BROSES YMGEISIO

Dylai ymgeiswyr lenwi ein ffurflen tystiolaeth llunio rhestr fer.  
Dylai hwn fynd i'r afael â'r cwestiynau isod gydag ymateb nad yw'n fwy na 500 gair fesul cwestiwn (Uchafswm 1000 Gair)

## Cwestiwn 1:

Amlinellwch unrhyw brofiad perthnasol sydd gennych, a allai gyfrannu at y cais hwn.

(e.e. profiad Gwasanaeth Brys, gweithio fel rhan o dîm, profiad byw o ymateb i argyfwng a/neu ddilyn cyfarwyddiadau yn gymwys)

## Cwestiwn 2:

Pa briodoleddau (sgiliau a/neu gredoau) sydd gennych chi a allai fod o fudd i'r Gronfa Wrth Gefn Atodol yn SWFR? Gwnewch yn siŵr eich bod yn cefnogi'ch ateb gydag enghraifft neu ddisgrifiad o bryd rydych wedi arddangos y nodwedd hon.

(e.e. Chwaraewr tîm / Ymrodd / Proffesiynol ac ati)

## Cwestiwn 3:

Cadarnhewch y gallwch ymrwmo i bob un o'r diwrnodau hyfforddi a nodir yn y rhan 'HANFODOL' o'r Fanyleb Bersonol. (Nid oes angen 1000 o eiriau ar gyfer y Cwestiwn hwn)

Wrth ateb y cwestiynau uchod, dylech chi feddwl am ddull megis 'STAR' (Situation, Task, Action, Result).

Dyma ffordd ddefnyddiol i ddisgrifio profiadau a gawsoch chi yn y gorffennol ac yn helpu rhoi strwythur i'r ateb drwy ystyried y **S**efyllfa, y **D**asg, y **G**weithred, a'r **C**anlyniad. (Yn Saesneg mae 'STAR' yn gweithio).



# SUT | YMGEISIO

## Ymgeiswyr Allanol

Mewngofnodwch i'n gwefan: [www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi-gwag](http://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi-gwag)

Dewiswch y rôl o'r 'Swyddi Gwag Presennol' a chliciwch ar y ddolen ar gyfer ein system e-recriwtio.

Sicrhewch fod pob adran o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

## Ymgeiswyr Mewnol

Mewngofnodwch i People XD/Core a llywio i 'swyddi gweigion cyfredol' i ddewis y swydd berthnasol. Sicrhewch fod pob adran o'r cais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

## Holl Ymgeiswyr

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, megis print bras neu gefndir gwyn neu liw, neu fel arall angen ffurflen gais bapur, cysylltwch â'n tîm Recriwtio yn [recriwtio@decymru-tan.gov.uk](mailto:recriwtio@decymru-tan.gov.uk) neu ffoniwch ni ar 01443 232300 a byddwn yn ymdrechu i helpu cyn gynted â phosibl.

Mewngofnodwch i People XD/Core. Ewch i 'swyddi gwag cyfredol' a dewisiwch a y swydd briodol. Sicrhewch eich bod yn llenwi pob brhan o'r ffurflen gais a chofiwch atodi'r wybodaeth bellach sy'n nodi pam eich bod chi'n addas i'r swydd yn ogystal ateb yn union y meini prawf ar gyfer llunio'r rhestr fer.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweiliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

# GWYBODAETH YCHWANEGOL

## Gwiriadau Recriwtio Allanol

Bydd yr holl ymgeiswyr allanol yn destun y gwiriadau recriwtio canlynol cyn eu penodi:

- Gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Gwiriadau hawl i weithio.
- Gwiriadau meddygol, iechyd a ffitrwydd.
- Dim rhybuddion disgyblaeth cyfredol (Gweithredol)
- Gwiriadau trwydded yrru.
- Gwiriadau geirdaon
- Mae'n bosibl y bydd angen fetio ar lefel cliriad diogelwch ar gyfer rhai rolau

## Cod Moeseg Craidd CCPT

**RHOI EIN CYMUNEDAU YN GYNTAF:** Rydym yn blaenoriaethu lles y cyhoedd, y gymuned a defnyddwyr gwasanaeth.

**UNIONDEB:** Rydym yn gweithredu gydag uniondeb, gan gynnwys bod yn agored, yn onest ac yn gyson ym mhopeth a wnawn.

**URDDAS A PHARCH:** Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol ar sail tystiolaeth, heb wahaniaethu na thuedd.

**ARWEINYDDIAETH:** Rydym i gyd yn fodolau rôl cadarnhaol, bob amser yn dangos hyblygrwydd ac arweinyddiaeth hydwyth. Rydym i gyd yn atebol am bopeth a wnawn ac yn herio pob ymddygiad nad yw'n cyrraedd y safonau uchaf.

**CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIAD:** Rydym yn cydnabod ac yn hyrwyddo gwerth CAC yn barhaus o fewn GTADC a'r cymunedau ehangach yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn sefyll yn erbyn pob math o wahaniaethu, yn creu cyfle cyfartal, yn hyrwyddo cydraddoldeb, yn meithrin cysylltiadau da ac yn dathlu gwahaniaeth.



**Dyma'r sylfaen ar gyfer ein gwerthoedd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a bydd yn ein helpu i greu amgylchedd sy'n groesawgar, yn oddefgar ac yn ddiogel, heb unrhyw le i ymddygiadau amhriodol a champau gweithredu sy'n bygwth, amharchu neu'n dychryn eraill**

# BUDDION

**Gwyliau Blynyddol** – Lwfans gwyliau blynyddol hael.

**Rhaglen Cymorth i Weithwyr** - Mae'r RhGG yn darparu cyngor a chymorth cyfrinachol, diduedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i weithwyr gael mynediad iddo pryd bynnag y bo angen.

**Vivup** – Darparwr buddion gweithwyr sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n cynnig pentwr o fanteision ac arbedion iechyd a lles i'r holl staff ar draws nifer o frandiau mawr.

Mae rhai o fanteision y platform hwn yn cynnwys:

- Cynllun Seiclo i'r Gwaith
- Cynllun Ceir Tusker
- Gostyngiad nwyddau i'r cartref a nwyddau electroneg
- Arbedion Dull o Fyw

**Oriau Gwaith Hyblyg** – Mae staff corfforaethol yn gallu gweithio oriau hyblyg. Gydag oriau craidd o 10yb – 12yp a 2yb – 3yp; Gallwch gwblhau balans eich oriau unrhyw bryd rhwng 7yb a 7yp.

**Dysgu a Datblygu** – Mae GTADC yn cydnabod bod gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn allweddol i lwyddiant. Gyda Chanolfan Hyfforddi bwrpasol ym Mhorth Caerdydd a thimau hyfforddi arbenigol, mae digon o gyfleoedd i dyfu a datblygu sgiliau newydd.

**Campfa** - Ble bynnag yr ydych wedi'ch lleoli fel gweithiwr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, mae mynediad i'n cyfleusterau campfa ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim.



**Ymgynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd** - Mae ein Hymgyngorwyr Iechyd a Ffitrwydd yn monitro lefelau ffitrwydd staff gweithredol. Gallant hefyd gynnig cyngor iechyd a ffitrwydd i bob gweithiwr ar gais.

**Elusen Diffoddwyr Tân** - Gall pob gweithiwr, ynghyd â'u dibynyddion, fod yn fuddiolwyr yr elusen. Mae'r elusen yn darparu cymorth iechyd a lles i holl gymuned y Gwasanaeth Tân.

**Parcio Ceir** – Nid yw GTADC yn codi tâl am barcio yn unrhyw un o'i safleoedd.

**Hyrwyddwyr Golau Glas Mind** – Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i iechyd a lles, rydym yn cefnogi Rhaglen Golau Glas MIND. Mae'r rhaglen yn cynnig cymorth iechyd meddwl i weithwyr y gwasanaethau brys.

**Iechyd Galwedigaethol** - Nod yr Uned Iechyd Galwedigaethol yw cynyddu effeithlonrwydd iechyd a lles staff i'r eithaf a lleihau'r risgiau y mae staff yn agored iddynt o ganlyniad i arferion gwaith a'r amgylchedd.

**Pensiwn** – Mae staff cymorth yn gymwys i ymuno â chynllun pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn â buddion penodedig. Mae cyfraniadau gweithwyr yn seiliedig ar eich cyflog.

**Chwaraeon a Chymdeithasu** – Mae ein hadran chwaraeon a chymdeithasol yn dod â gweithwyr ynghyd o bob adran. Mae ffotograffiaeth, sgïo, crwydro, seiclo, pêl-droed, rygbi, syrffio a golff yn rhai o'r diddordebau a rennir.

**Cyrsiau Cymraeg** – Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle ac yn cynnig mynediad i bob gweithiwr i gyrsiau Cymraeg ar ystod o lefelau sy'n addas ar gyfer pawb.

**Hyderus o ran Anabledd** – Rydym yn falch o fod yn Gyflogwr Ymrwymedig Hyderus o ran Anabledd ardystiedig





**Gwasanaeth Tân ac Achub**  
De Cymru  
South Wales  
**Fire and Rescue Service**

## South Wales Fire and Rescue Service

Recruitment & Retention Team  
Fire Service Headquarters  
Forest View Business Park  
Llantrisant  
CF72 8LX

Recruitment Line – 01443 232200  
[recruitment@southwales-fire.gov.uk](mailto:recruitment@southwales-fire.gov.uk)



[www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us](http://www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us)

**SCAN ME**

